**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024.

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

16 Ebrill 2024

## RHAN 1

## Disgrifiad

1. Mae Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024 ("Gorchymyn 2024") yn diwygio'r categorïau o bersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") fel y'u nodir yn Nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

2. Mae Gorchymyn 2024 hefyd yn diwygio rheoliad 19 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015/140 ("Rheoliadau 2015") a rheoliad 4 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017/92.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Dim

## Y cefndir deddfwriaethol

4. Mae Gorchymyn 2024 yn diwygio offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau deddfwriaethol gwahanol. Mae adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019") yn darparu y caniateir i ddarpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gael ei chyfuno yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. O ganlyniad, bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i Orchymyn 2024.

5. Mae adran 39 o Ddeddf 2019 yn darparu pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau hynny drwy offeryn statudol.

6. Mae Gorchymyn 2024 wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf 2014.

7. Mae adran 5(1) o Ddeddf 2014 yn rhoi pŵer gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru i roi neu osod ar y Cyngor unrhyw swyddogaethau ychwanegol sy'n briodol yn eu barn hwy. Mae adran 12(1) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth ynghylch y ffioedd y caniateir iddynt fod yn daladwy mewn cysylltiad â chofrestru. Mae adran 13(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth bellach ynghylch y gofrestr a chofrestru sy'n briodol neu'n hwylus yn eu barn hwy. O dan adran 15(1), caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu na chaniateir i addysg gael ei darparu gan berson mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach

yng Nghymru oni bai bod gan y person gymhwyster penodedig a'i fod wedi ei gofrestru yng nghategori athro neu athrawes addysg bellach.

8. Mae paragraff 2(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ychwanegu, diwygio neu ddileu categori cofrestru neu'r disgrifiad o gategori.

9. Mae adran 46 o Ddeddf 2014 yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud unrhyw ddarpariaeth ddeilliadol, ganlyniadol, atodol, ddarfodol neu arbed sy'n briodol yn eu barn hwy at ddibenion rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon, neu oddi tani, neu mewn cysylltiad â hynny. Mae'r pŵer hwn yn cynnwys y pŵer i addasu Deddf 2014 neu unrhyw ddeddfiad arall.

10. Mae adran 47(1) o Ddeddf 2014 yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan Ddeddf 2014 yn cynnwys y pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth ddeilliadol, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n angenrheidiol ym marn Gweinidogion Cymru a gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol. Mae adran 47(2) o Ddeddf 2014 yn darparu y bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i orchymyn a wneir o dan adran 5, rheoliadau a wneir o dan adran 12, neu orchymyn a wneir o dan baragraff 2(2) o Atodlen 2. O dan adran 47(3), mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan Ddeddf 2014 i fod yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

11. Diben Gorchymyn 2024 yw cau bylchau yn y gofynion cofrestru presennol sy'n golygu bod y lefel o reoleiddio proffesiynol yn amrywio ar draws y gweithlu addysg yng Nghymru, hyd yn oed pan fo unigolion yn cyflawni rolau tebyg. Mae Gorchymyn 2024 hefyd yn diwygio Rheoliadau 2015 drwy wneud darpariaeth mewn perthynas â 'cymhwyster penodedig' fel sy'n ofynnol o dan adran 15(1)(a)(i) o Ddeddf 2014.

12. Mae Gorchymyn 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned a phenaethiaid ac uwch-arweinwyr mewn sefydliadau addysg bellach gofrestru â'r Cyngor. Bydd cofrestriad proffesiynol yn helpu i sicrhau bod mwy o ymarferwyr yn ennyn hyder y cyhoedd am eu bod yn gallu dangos bod ganddynt y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymeriad i gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol o fewn eu proffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol. Drwy fynd ati i gofrestru gall unigolion neu sefydliadau hefyd godi pryderon a sicrhau yr ymchwilir i'r pryderon hynny'n annibynnol.

13. Felly, mae Gorchymyn 2024 yn gwneud y diwygiadau canlynol:

| ***Categori*** | ***Disgrifiad*** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Athro neu athrawes addysg bellach | Diwygio Rheoliadau 2015 i'w gwneud yn ofynnol i bob athro neu athrawes sy'n gweithio yn y categori athrawon addysg bellach ddal cymhwyster penodedig, fel y'i diffinnir yn yr Atodlen newydd 6 i Reoliadau 2015. |
| Ymarferydd Dysgu Oedolion | Ychwanegu categori cofrestru newydd i'w gwneud yn ofynnol i berson sy'n darparu addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer darparwr dysgu oedolion yn y gymuned gofrestru â'r Cyngor a bod â chymhwyster penodedig. |
| Pennaeth neu uwch-arweinydd mewn addysg bellach | Ychwanegu categori cofrestru newydd i'w gwneud yn ofynnol i berson sy'n rheoli addysgu a dysgu mewn neu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru gofrestru â'r Cyngor. |

14. Mae Gorchymyn 2024 yn diwygio Tabl 1 o baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 i ychwanegu'r categorïau cofrestru canlynol:

| **Categori** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Pennaeth neu uwch-arweinydd mewn addysg bellach | Person sy'n rheoli addysgu a dysgu mewn neu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru. |
| Ymarferydd Dysgu Oedolion | Person sy'n darparu addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer neu ar ran darparwr dysgu oedolion yn y gymuned. |

15. Mae Gorchymyn 2024 yn mewnosod Atodlen 6 yn Rheoliadau 2015 sy'n pennu'r cymwysterau sy'n ofynnol i weithio fel athro neu athrawes addysg bellach yng Nghymru. Cymwysterau addysgu Lefel 5 neu'n uwch yw'r cymwysterau penodedig yn fras.

16. Mae Gorchymyn 2024 yn pennu yn yr Atodlen y cymwysterau sy'n ofynnol i weithio fel ymarferydd dysgu oedolion yng Nghymru. Cymwysterau addysgu Lefel 3 neu'n uwch yw'r cymwysterau penodedig yn fras.

17. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor gofrestru'r unigolion hyn a sicrhau bod ganddynt gymhwyster penodedig.

**Ymgynghori**

18. Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 5 neu baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

19. Roedd yn fwriad gwreiddiol i'r categorïau ychwanegol a gynhwysir bellach yng Ngorchymyn 2024 ffurfio rhan o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 ("Gorchymyn 2023").

20. O’r herwydd, cawsant eu cynnwys mewn ymgynghoriad 12 wythnos ar Orchymyn 2023, a gynhaliwyd rhwng 1 Mawrth 2022 a 24 Mai 2022 gan nodi’r newidiadau arfaethedig i gategorïau cofrestru.

21. Cafodd yr ymgynghoriad hwnnw 338 o ymatebion, ac roedd cefnogaeth eang i’r cynigion. Codwyd pryderon ynghylch yr hyn y byddai manylion y Gorchymyn yn ei gwmpasu. Aethpwyd i’r afael â hyn drwy’r ail ymgynghoriad ar yr offeryn drafft. Trafodwyd ffioedd sy’n gysylltiedig â’r categorïau cofrestru newydd hefyd yn yr ymgynghoriad yn 2022.

22. Cyhoeddwyd crynodeb o’r adborth ac ymateb Llywodraeth Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae’r ymgynghoriad cyntaf ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/categoriau-cofrestru-newydd-ar-gyfer-cyngor-y-gweithlu-addysg](https://www.llyw.cymru/categoriau-cofrestru-newydd-ar-gyfer-cyngor-y-gweithlu-addysg).

23. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys ysgolion annibynnol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill megis Comisiynydd Plant Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn ogystal, ymgysylltodd swyddogion â Chyngor y Gweithlu Addysg, Safonau Addysg Hyfforddiant, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a’r sector gwaith ieuenctid ehangach, addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith er mwyn sicrhau bod eu barn hwy yn cael ei hystyried.

24. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar Orchymyn drafft 2024 rhwng 26 Medi 2023 a 21 Tachwedd 2023.

25. Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwn ar 21 Rhagfyr 2023 a gellir ei weld yma: Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2024.

26. Roedd yr ymateb cyffredinol i’r ymgynghoriad yn gadarnhaol. Er bod y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno bod lefel ofynnol o gymhwyster ar gyfer y rhai sy’n gweithio yn y sector yn ymyrraeth gadarnhaol, roedd pryder ynghylch a oedd y lefel o gymhwyster a bennwyd ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu oedolion yn briodol. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn ofni y byddai’r rhestrau o’r cymwysterau hyn, fel y’u nodir yn y ddeddfwriaeth, yn darfod yn fuan ar ôl eu cyhoeddi. Mae ymateb i’r ddau fater yn y crynodeb.

27. Wrth benderfynu ar yr hyn sy’n ofynnol o ran cymwysterau i gofrestru, buom yn cydweithio’n agos â rhanddeiliaid o bob rhan o’r sector addysg ôl-16 gan gynnwys Undeb Prifysgol a Choleg Cymru, yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Cyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor), Colegau Cymru, y Sefydliad Dysgu a Gwaith a chynrychiolwyr penodol o’r sector addysg bellach a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned.

28. Mae’r rhestr o gymwysterau sydd wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon wedi ei rhannu ag undebau athrawon a’r sectorau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned drwy drafod a negodi, yn ogystal â thrwy’r ail ymgynghoriad. Ni ddaeth unrhyw ddiwygiadau i’r rhestr o gymwysterau i law fel rhan o’r

ymgynghoriad, ond mae’r rhestr wedi ei diwygio er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol ar adeg gwneud y gorchymyn.

**Rhan 2**

**ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

1. Un o nodweddion allweddol sawl proffesiwn yw gofyniad i gofrestru â chorff proffesiynol sy’n pennu ac yn cynnal safonau proffesiynol, yn cynnal hyder y cyhoedd ac yn dangos ymrwymiad cyffredin i broffesiynoldeb. Cyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor) sy’n rheoleiddio safonau proffesiynol yn y gweithlu addysg yng Nghymru.

2. Mae Deddf 2014 yn nodi’r gofynion i ymarferwyr gofrestru yn y categori neu’r categorïau cofrestru ar gyfer y rôl y maent yn ei chyflawni. Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2014 yn nodi’r categorïau presennol o’r rhai y mae’n ofynnol iddynt gofrestru â’r Cyngor, sy’n cynnwys:

| **Categori** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Athro neu athrawes addysg bellach | Person sy’n darparu (neu sy’n dymuno darparu) addysg (fel y’i diffinnir gan adran 140(3) o Ddeddf 2002) mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru. |
| Gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach | Person, ac eithrio athro neu athrawes addysg bellach, sy’n darparu (neu sy’n dymuno darparu), yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, unrhyw un neu ragor o’r gwasanaethau a ddisgrifir yn adran 16(2) mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru. |

3. Nodwyd bylchau yn y gofyniad i’r gweithlu addysg bellach gofrestru â’r Cyngor, gan gynnwys:
   - Athrawon ôl-16 sy’n dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer neu ar ran awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru.
   - Uwch-arweinwyr a phenaethiaid o fewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

4. I fynd i’r afael â hyn, mae Gorchymyn 2024 yn gwneud darpariaeth i’w gwneud yn ofynnol i’r categorïau uchod gofrestru â’r Cyngor. Yn ogystal, mae Gorchymyn 2024 yn gwneud darpariaeth i’w gwneud yn ofynnol i athro neu athrawes addysg bellach ddal ‘cymhwyster penodedig’ fel sy’n ofynnol o dan adran 15(1)(a)(i) o Ddeddf 2014.

**Opsiwn 1: Gwneud dim.**

5. Os na wneir y Gorchymyn hwn, ni fyddai unrhyw ofyniad i athrawon addysg bellach ddal cymhwyster penodedig er mwyn addysgu mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

6. Yn ogystal, byddai gwahaniaeth o hyd yn y lefel o reoleiddio proffesiynol ar draws gweithlu addysg Cymru, hyd yn oed pan fo unigolion yn cyflawni rolau tebyg. Mae’r diffyg tegwch hwn yn tanseilio’r gweithlu.

7. Nid yw gwneud dim yn cael ei ystyried yn briodol.

**Opsiwn 2: Gwneud y ddeddfwriaeth**

8. Drwy wneud y diwygiadau arfaethedig, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu sicrhau bod gan athrawon addysg bellach gymwysterau addas.

9. Bydd ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr addysg bellach o fewn y gweithlu addysg ôl-16 gofrestru â'r Cyngor hefyd yn:
   - Darparu tegwch ar draws y gweithlu ôl-16 gan sicrhau bod y lefel o reoleiddio proffesiynol yn gyson ar draws gweithlu addysg Cymru, yn enwedig pan fo unigolion yn cyflawni rolau tebyg.
   - Darparu llwybr i unigolion neu sefydliadau godi pryderon a sicrhau yr ymchwilir i'r pryderon hynny'n annibynnol.
   - Ei gwneud yn bosibl i farn ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned gael ei chynnwys a'i hystyried pan gynhelir arolygon o'r gweithlu ôl-16.
   - Galluogi ymarferwyr dysgu oedolion i gael gafael ar arweiniad a dysgu proffesiynol nad yw ar gael iddynt ar hyn o bryd.
   - Diogelu dysgwyr ymhellach drwy ddarparu haen ychwanegol o ddiogelwch drwy sicrhau bod uwch-arweinwyr yn cael eu dwyn i gyfrif i gyfres o safonau proffesiynol sydd ar yr un lefel â'u gweithlu.

10. Gallai ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr mewn sefydliadau addysg bellach a darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ddal lefel ofynnol o gymhwyster roi baich pellach ar ymarferwyr. Fodd bynnag, mae'r effeithiau cadarnhaol, fel y'u hamlinellir uchod, yn drech nag unrhyw effeithiau negyddol. Yn ogystal, bydd gan ymarferwyr rhwng 3 a 5 mlynedd i gyflawni'r lefel ofynnol o gymhwyster.

**Opsiynau eraill**

11. Nid oes unrhyw opsiynau anneddfwriaethol ymarferol amgen i gau'r bylchau yn y gofynion cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg ôl-16 nac i wneud darpariaeth i athrawon addysg bellach ddal cymhwyster penodedig. Roedd sefydlu'r Cyngor yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, er mwyn sicrhau bod ymarferwyr addysg yn rhan o gorff proffesiynol sy'n cynnal ac yn gwella safonau ymddygiad proffesiynol. Mae'r newid hwn yn adeiladu ar yr ymrwymiad hwnnw ac ni ellir ei gyflawni heb y newidiadau deddfwriaethol hyn.

**Costau a manteision opsiwn 1: Gwneud dim**

12. Mae cost i gofrestreion am gydymffurfio â'r gofyniad i gofrestru â'r Cyngor. Yn rheoliad 4 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017, pennwyd mai'r gost ar gyfer pob categori (fel y'i nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014) yw £46 y flwyddyn.

13. Gall gwneud dim fod o fantais i'r rhai sydd â phryderon y gallai ei gwneud yn ofynnol i gofrestru olygu bod pobl yn amharod i weithio yn y sector. Nid ydym yn credu bod tystiolaeth i gefnogi'r pryder hwn, ond mae'n rhywbeth y byddwn yn gweithio gyda'r sector i'w fonitro a'i reoli.

**Costau a manteision opsiwn 2: Gwneud y ddeddfwriaeth**

14. Mae cost i gofrestreion am gydymffurfio â'r gofyniad i gofrestru â'r Cyngor. Yn rheoliad 4 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017, pennwyd mai'r gost ar gyfer pob categori (fel y'i nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014) yw £46 y flwyddyn.

15. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer y ffioedd, felly mae'r ffioedd sy'n daladwy yn amrywio yn dibynnu ar y categori y mae'n ofynnol i berson gofrestru ar ei gyfer. Pennir ffi o £46 y flwyddyn ar gyfer y ddau gategori newydd, gyda chymorthdaliadau yn cael eu darparu, gan ddod â chyfanswm y ffi sy'n daladwy i unigolion lawr i naill ai £45 ar gyfer penaethiaid ac uwch-arweinwyr neu £15 ar gyfer ymarferwyr dysgu oedolion. Er nad yw'n debygol y bydd unrhyw ffi ychwanegol i unigolion yn cael ei chroesawu, roedd cefnogaeth yn yr ymgynghoriad i degwch y ffi arfaethedig a strwythur y cymorthdaliadau.

16. Codwyd pryder drwy'r ymgynghoriad ynghylch cost y ffioedd i'r rhai sy'n gweithio yn y gymuned dysgu oedolion sydd yn aml ar incwm isel ac yn gweithio ychydig oriau. Eid i'r afael â'r pryder hwn drwy'r cynnig i ymestyn y cymhorthdal sy'n cael ei fwynhau ar hyn o bryd gan weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a sefydliadau addysg ôl-16 i ymarferwyr dysgu oedolion.

17. Nid yw effeithiau Gorchymyn 2024 yn golygu bod angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru oherwydd mae'r Cyngor wedi cadarnhau y bydd yn defnyddio ei gyllid presennol ar gyfer unrhyw gymorthdaliadau ychwanegol o fewn ei gyllid presennol. Yn amlwg, mae costau ychwanegol i unigolion y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru, a'u cyflogwyr, pe baent yn dewis ategu'r ffioedd hyn. Efallai y bydd effaith ar sefydliadau, a'r trydydd sector, a all benderfynu cyfrannu at y ffioedd hynny ar ran eu cyflogeion. Dim ond un sefydliad y mae'r cynigion hyn yn effeithio arno sy'n elusen gofrestredig. Mae hefyd yn Sefydliad Addysg Bellach dynodedig sy'n cael cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Bu'n ofynnol i'w weithlu gofrestru ers 2015, ac felly bach iawn fydd yr effaith ar y Trydydd Sector.

18. Mae cyflwyno'r gofyniad i ddal cymhwyster addysgu penodedig ar gyfer athrawon addysg bellach yn golygu na fydd unigolion nad ydynt ar hyn o bryd yn dal un neu ragor o'r cymwysterau ar y rhestr yn gallu gweithio mwyach fel athro neu athrawes addysg bellach i sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Mae hyn yn amodol ar y amod y gall y rhai sy'n gweithio tuag at gymhwyster penodedig barhau i weithio yn y sector am gyfnod o 3 blynedd, os ydynt yn gweithio'n llawnamser, neu 5 mlynedd, os ydynt yn gweithio'n rhan-amser. Awgrymodd yr ymgynghoriad cychwynnol â'r sector fod hwn yn amserlen addas a digonol.

19. Yn ôl Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg ar gyfer Cymru 2022, a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2022, roedd 321 o unigolion wedi eu cofrestru'n athrawon addysg bellach a oedd yn dal cymwysterau ar lefel is na'r rhai a bennir yng Ngorchymyn 2024. Mae hyn yn cyfateb i 5% o'r unigolion sydd wedi eu cofrestru yn y categori hwn. Roedd 1,022 (15%) ychwanegol yn 'anhysbys'. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod rhai eisoes yn gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch ac y byddant wedi cofrestru ar gyrsiau perthnasol i gyflawni hyn.

20. Cafwyd cefnogaeth yn yr ail ymgynghoriad i'r cynigion i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gweithio fel athrawon addysg bellach ddal cymhwyster addysgu Lefel 5 neu'n uwch.

21. Mae cyflwyno'r cymhwyster addysgu gofynnol ar gyfer ymarferwyr dysgu oedolion yng Ngorchymyn 2024 yn golygu na fydd unigolion nad ydynt yn dal un o'r cymwysterau penodedig ar hyn o bryd yn gallu cofrestru â'r Cyngor, oni bai eu bod yn gweithio tuag ato.

22. Nid yw nifer yr unigolion sy'n dysgu oedolion yn y gymuned ar hyn o bryd nad ydynt wedi eu cymhwyso i'r lefel hon yn hysbys, ond mae ymgynghoriad cychwynnol â'r sector yn dangos bod hon yn lefel addas i ymarferwyr.

23. Mynegwyd pryder yn yr ymgynghoriad ynghylch effaith bosibl y gofyniad hwn ar y sector dysgu oedolion. Fodd bynnag, caiff hyn ei liniaru gan y ffaith y bydd gan ymarferwyr hyd at 5 mlynedd i ennill y cymhwyster ac roedd manteision cadarnhaol cofrestru yn drech na'r effaith negyddol bosibl.

24. Ni fu'n ofynnol i ymarferwyr dysgu oedolion gofrestru â'r Cyngor, ond bydd cofrestru yn diogelu ymarferwyr a dysgwyr ymhellach. Bydd hefyd yn 'proffesiynoli' y sector dysgu oedolion, sy'n hir-ddisgwyliedig. At hynny, bydd yn darparu cyfle i ymarferwyr dysgu oedolion achub ar gyfleoedd datblygu proffesiynol, cefnogaeth ac arweiniad nad yw wedi bod ar gael iddynt cyn hyn.

25. Byddai'r gefnogaeth bresennol y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu i'r sector addysg bellach drwy'r Gronfa Dysgu Proffesiynol (yn amodol ar gytundeb cyllidebol) ar gael i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cymwysterau a bennir yn y ddeddfwriaeth. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda'r sectorau addysg bellach a dysgu oedolion i gefnogi'r gwaith o ddarparu cymwysterau perthnasol er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn gallu cyflawni'r lefelau gofynnol o gymhwyster.

26. Ystyriwyd mai ei gwneud yn ofynnol i'r gweithlu addysg bellach ddal cymhwyster addysgu penodedig ar Lefel 5 (neu'n uwch), er yn heriol i rai, yw'r lefel briodol er mwyn sicrhau bod gan bob athro neu athrawes yn y sector y sgiliau addysgu angenrheidiol sy'n ofynnol. Fe'i gwelwyd, gan y sector, yn gam sylfaenol tuag at broffesiynoli'r sector, a sicrhau parch cydradd rhwng aelodau'r gweithlu addysg ehangach.

27. Ar hyn o bryd, mae tua 85,000 o unigolion wedi eu cofrestru â'r Cyngor ac mae disgwyl i'r nifer hwn gynyddu oddeutu 1,900 yn sgil Gorchymyn 2023. Bydd y nifer hwn yn cynyddu eto yn sgil cyflwyno Gorchymyn 2024.

28. Gall y Cyngor ddarparu ar gyfer y cofrestreion ychwanegol o fewn ei strwythur presennol a heb gynyddu ffioedd blynyddol unigolion. Gallai'r cofrestreion ychwanegol hyn a fyddai'n talu rhwng £15 a £45 ddarparu incwm ychwanegol cyfanredol o tua £57,000 i'r Cyngor. Mae cost ffioedd i'r unigolyn, ynghyd â'r cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru, yn talu'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â phrosesu cofrestriadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i sicrhau bod y strwythur ffioedd yn parhau'n briodol dros y blynyddoedd i ddod.

29. Mae swyddogion yn amcangyfrif, yn seiliedig ar y cynnydd a ragwelir mewn cofrestreion, a phrofiad gwaith achos helaeth y Cyngor, y gellid gwneud 2-3 o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer pellach bob blwyddyn. Bydd y ffioedd ychwanegol yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y gwrandawiadau.

30. Mae cofrestru proffesiynol yn hanfodol er mwyn cynnal hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y gweithlu addysg, yn ogystal â diogelu buddiannau dysgwyr a'r cyhoedd. Mae cofrestru proffesiynol hefyd yn helpu i gynnal hyder ymhlith y gweithlu ei hun. Mae'r ffi a delir yn golygu y gall yr holl ymarferwyr hynny y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor fanteisio ar y cymorth a'r gydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â pherthyn i gorff proffesiynol sy'n cynnal safonau proffesiynol. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru.

31. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod ymarferwyr, ni waeth pa lwybr gyrfa a ddilynir ganddynt, yn parhau i ddatblygu a chyfoethogi eu haddysgeg a'u sgiliau drwy gyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol.

**Crynodeb o ganfyddiadau proses yr asesiad effaith integredig**

Y Gymraeg

32. Ni ddisgwylir unrhyw effaith – cadarnhaol neu negyddol – ar y Gymraeg.

33. Mae'r Cyngor wedi meddu ar strategaeth ar gyfer y Gymraeg ers iddo gael ei sefydlu yn 2015 ac mae'n cydymffurfio â'r 148 o Safonau'r Gymraeg sydd wedi eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau, gweithredu, llunio polisi, cadw cofnodion a hybu.

Hawliau Plant

34. Bydd y mwyafrif o'r dysgwyr y mae Gorchymyn 2024 yn effeithio arnynt yn 16+ oed, ond bydd yr effaith ar bob dysgwr yn gadarnhaol oherwydd bydd ymestyn y gofyniad i gofrestru yn diogelu mwy o ddysgwyr. Fodd bynnag, bydd yr effaith ar blant yn anuniongyrchol.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

35. Gall y gofyniad yng Ngorchymyn 2024 i  grwpiau cofrestru ychwanegol gael effaith negyddol ar rai unigolion o aelwydydd incwm isel. Y rheswm am hyn yw y gallai unrhyw gost ychwanegol fod yn faich iddynt. Fodd bynnag, mae'r costau yn isel ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer y costau hyn, yn enwedig i'r aelodau hynny o'r gweithlu addysg sy'n ennill leiaf.

36. Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, fel y'u diwygiwyd, yn pennu bod rhaid cyhoeddi cod sy'n nodi'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol y disgwylir i bersonau sydd wedi eu cofrestru â'r Cyngor eu cyrraedd.

37. Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Athrawon AB ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith wedi eu diwygio i ymgorffori ymarferwyr dysgu oedolion, ac mae Safonau Proffesiynol newydd wedi eu hysgrifennu ar gyfer Uwch-arweinwyr a gweithwyr cymorth yn y sector ôl-16.

38. Mae'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol hwn yn nodi'r egwyddorion allweddol o ran ymddygiad da ac ymarfer proffesiynol y mae disgwyl i gofrestreion y Cyngor eu dilyn, a'i fwriad yw llywio, cefnogi ac arwain pawb yn eu hymddygiad a'u hymarfer o ddydd i ddydd. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i rieni, y cyhoedd, a rhanddeiliaid sy'n ymwneud ag addysg dysgwyr a phobl ifanc yng Nghymru, a dysgwyr a phobl ifanc eu hunain, am y safonau y gallant eu disgwyl gan gofrestreion. Mae'r Cod yn cynnwys gofyniad i gofrestreion ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Ochr yn ochr â'r ymrwymiad hwn, mae dyletswydd gofal i sicrhau diogelwch a llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol ac addysgol dysgwyr a phobl ifanc.

Preifatrwydd

39. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn prosesu unrhyw ddata ychwanegol o ganlyniad i Orchymyn 2023. Y Cyngor yw'r rheolydd data ac mae'n ymwybodol o'r gofyniad i gydymffurfio'n llawn â phob deddfwriaeth diogelu data.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

40. Nid oes Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi ei gynnal, gan na nodwyd unrhyw effeithiau perthnasol wrth ystyried Gorchymyn 2024.

Crynodeb

41. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i symud ymlaen ag Opsiwn 2 ac maent wedi gwneud y ddeddfwriaeth.

**Asesu'r gystadleuaeth**

42. Nid oes unrhyw oblygiadau i'r farchnad yn gysylltiedig â gwneud Gorchymyn 2024.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

43. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor i fonitro trefniadau cofrestru'r categorïau newydd ar ôl dyddiad dod i rym Gorchymyn 2024.

44. Fel rhan o'r gwaith monitro, adolygir y strwythur ffioedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y sector a'r Cyngor. Os ystyrir ei bod yn briodol addasu'r ffi, cynhelir ymgynghoriad llawn er mwyn gwneud newidiadau pellach i'r ddeddfwriaeth.

45. Lluniwyd asesiad effaith integredig llawn sydd ar gael yn Atodiad A. Bydd swyddogion yn parhau i'w adolygu drwy gydol y broses weithredu ac am y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau penodol yn cael eu lliniaru.